



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

Cymrodoriaeth Gysylltiol Canllawiau i Ymgeiswyr

Addaswyd o ganllawiau AU Ymlaen



1. Cynnwys

1. CYNNWYS	1
2. CYFLWYNIAD	2
3. FFRAMWAITH SAFONAU PROFFESIYNOL Y DU 2023 (PSF 2023)	3
3.1 ADDYSG UWCH A CHYMHWYSTRA AR GYFER CYMRODORIAETH	7
4. SUT I DDATBLYGU EICH CAIS	9
4.1 CAM 1	9
4.2 CAM 2	10
4.3 CAM 3	11
5. EICH ADRODDIAD AM ARFER PROFFESIYNOL	12
5.1 MAE EICH ADRODDIAD AM ARFER PROFFESIYNOL YN ADRODDIAD PERSONOL	12
5.2 DATGANIAD CYD-DESTUN	13
5.3 STRWYTHURO EICH NARATIF ADFYFYRIOL	15
5.4 UCHAFSWM GEIRIAU'R NARATIF ADFYFYRIOL	15
5.5 ADFYFYRIO AR EICH ARFER DRWY GYDOL EICH NARATIF ADFYFYRIOL	16
5.6 RHESTR GYFEIRIADAU	16
6. DANGOS TYSTIOLAETH O DDIMENSIYNAU PSF 2023 SY'N OFYNNOL AR GYFER DISGRIFYDD 1	18
6.2 ENGHREIFFTIAU O ARFER AR GYFER POB MAES GWEITHGARWCH	20
7. DATGANIADAU CEFNOGI	25
7.1 CANLLAWIAU I GANOLWYR	25
8. CYFLWYNO EICH CAIS AM GYMRODORIAETH GYSYLLTIOL	27
8.1 PROSES CYFLWYNO CAIS:	27
9. SUT BYDD EICH CAIS YN CAEL EI ADOLYGU?	28
9.1 SUT MAE'R ASESWYR YN FFURFIO EU BARN?	28
9.2 CANLYNIADAU POSIBL ADOLYGIADAU	28
9.3 FAINT O AMSER BYDD Y BROSES ADOLYGU'N EI GYMRYD?	30
9.4 BETH OS OES GENNYF GWESTIYNAU ERAILL?	30

2. Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer unigolion sydd eisiau gwneud **cais drwy Gynllun DPP PCYDDS am Gymrodoriaeth Gysylltiol gan ddefnyddio'r Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF 2023)**.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio gofynion Cymrodoriaeth Gysylltiol ac yn rhoi arweiniad i'ch cefnogi i ddatblygu eich cais.

Cymrodoriaeth Gysylltiol yw'r categori priodol o gymrodoriaeth i gydnabod yn broffesiynol unigolion o amrywiaeth eang o gyd-destunau gwahanol y mae eu harferion addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn **addysg uwch** (AU) yn eu galluogi i **ddangos rhai o Ddimensiynau PSF 2023** i fodloni gofynion Disgrifedd 1 PSF 2023.

Trwy wneud cais i ddod yn Gymrawd Cysylltiol cewch gyfle i:

- Ddangos eich ymrwymiad i addysgu, dysgu, a phrofiad y myfyriwr, drwy ymgysylltu â phroses ymarferol sy'n annog ymchwil, adfyfrio a datblygiad proffesiynol
- Ennill cydnabyddiaeth broffesiynol am eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch a gydnabyddir yn gynyddol gan sefydliadau rhyngwladol
- Meincnodi eich arferion yn erbyn safonau proffesiynol a disgwyliadau'r sector
- Adnabod a dathlu eich cryfderau a'ch cyflawniadau drwy fyfrio ar eich profiad

Gall unigolion sy'n gwneud cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol fod yn weddol newydd i rôl ym maes addysgu a/neu gefnogi dysgu neu efallai y bydd ganddynt bortffolio addysgu cyfyngedig; er enghraifft, rhai staff sesiynol/rhan-amser neu ymchwilwyr gyrfa gynnar gyda rhai cyfrifoldebau addysgu. Gallant fod yn staff newydd neu brofiadol gyda rolau penodol wrth gefnogi dysgu mewn AU, fel technegwyr, llyfrgellwyr, staff proffesiynol, technolegwyr dysgu, cynghorwyr gyrfaedd, ac ati. **Nid yw'n dibynnu ar y rôl**; bydd angen i chi archwilio a oes gennych dystiolaeth ddigonol o arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu priodol i wneud cais llwyddiannus.

Rydym yn argymhell eich bod, cyn dechrau eich cais, yn defnyddio Offeryn Categori Cymrodoriaeth ar-lein AU Ymlaen, [Fellowship Category Tool \(FCT\)](#) sy'n rhad ac am ddim. Pan fyddwch yn ateb y cwestiynau ar-lein am eich gwaith mewn addysgu a dysgu, dylai hyn:


- eich helpu i wirio mai'r Gymrodoriaeth Gysylltiol yw'r dewis gorau o ran eich arfer ar hyn o bryd,
- eich ysgogi i feddwl am wahanol agweddau o'ch arfer wrth i chi gynllunio eich cais

3. Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU 2023 (PSF 2023)

Mae Fframwaith Safonau Proffesiynol 2023 (PSF 2023) ar gyfer addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch yn darparu set gynhwysfawr o safonau a chanllawiau proffesiynol ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag addysgu a chefnogi dysgu mewn addysg uwch. Gall unigolion ddefnyddio PSF 2023 i gynllunio eu datblygiad a dangos eu harfer er mwyn cael cydnabyddiaeth broffesiynol. Gall sefydliadau ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygiad proffesiynol cychwynnol a pharhaus a rhaglenni cydnabyddiaeth, a gellir ei ddefnyddio ar lefel genedlaethol i wella ansawdd addysgu a dathlu llwyddiant.

Mae PSF 2023 yn cydnabod yr amrywiaeth eang o gyd-destunau lleol a byd-eang y mae addysg uwch yn gweithredu ynddynt, a'r arferion a'r rolau amrywiol sy'n cyfrannu at ddysgu o ansawdd uchel.

Mae'r Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023 yn cynnwys dwy elfen: **Disgrifiyddion a Dimensiynau**



Ffigur 1: Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023

Mae Disgrifiyddion PSF (PSF, t6) yn set o ddatganiadau meini prawf (a elwir yn 'feini prawf' y

Disgrifyddion). Mae'r rhain yn diffinio nodweddion allweddol pedwar categori bras o arfer.

Gan ymgorffori'r Dimensiynau, mae pob Disgrifydd yn nodi ehangder yr arfer sydd ei angen i'w gyflawni ac yn cydnabod yr amrywiaeth o arfer a rolau a ymgwymerir gan weithwyr proffesiynol sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu. Mae pob Disgrifydd yn cynnwys cyflwyniad a set o dri datganiad meini prawf.

Trefnir Dimensiynau'r Fframwaith (PSF 2023, t4) yn **dair set gysylltiedig** o bum **Gwerth Proffesiynol**, pum math o **Wybodaeth Graidd** a phum **Maes Gweithgarwch**.

Gwerthoedd Proffesiynol (V1-5): mae'r rhain yn sail i'r holl Wybodaeth Graidd a Meysydd Gweithgarwch. Dyma yw sylfaen arfer proffesiynol.

Gwybodaeth Graidd (K1-5): yn seiliedig ar y Gwerthoedd Proffesiynol, mae'n cynrychioli ffurfiau allweddol o wybodaeth sydd eu hangen i ymgymryd â'r Meysydd Gweithgarwch. Mae nifer o ffurfiau amrywiol o wybodaeth sy'n gysylltiedig â chymunedau a chyd-destunau ac sy'n cael eu siapio ganddynt.

Mesysydd Gweithgarwch (A1-5): mae'r rhain yn dod â'r Gwerthoedd Proffesiynol a'r ffurfiau o Wybodaeth Graidd at ei gilydd, gan ddangos y gweithgareddau hanfodol sy'n cefnogi darparu arfer effeithiol.

AU Ymlaen sy'n gweithredu'r **cynllun cymrodoriaeth** ac mae ei gymrodoriaethau yn cyd-fynd â Disgrifyddion PSF 2023 fel a ganlyn:

- **Mae Disgrifydd 1 (D1) yn cyd-fynd â Chymrawd Cysylltiol**
- Mae Disgrifydd 2 (D2) yn cyd-fynd â Chymrawd
- Mae Disgrifydd 3 (D3) yn cyd-fynd ag Uwch Gymrawd
- Mae Disgrifydd 4 (D4) yn cyd-fynd â Phrif Gymrawd


Gall unigolion sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu gael eu cydnabod gan AU Ymlaen yn dibynnu ar eu harfer proffesiynol a'u profiad mewn un o bedwar categori cymrodoriaeth. Mae'r ddogfen ganllaw hon yn canolbwyntio ar **Gymrodoriaeth Gysylltiol (Disgrifydd 1)**.

I gyflawni Cymrodoriaeth Gysylltiol, mae angen i chi ddangos bod eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu yn amlygu gofynion tri maen prawf **Disgrifydd 1 (D1)**, sydd fel a ganlyn:

Mae **Disgrifydd 1** yn addas i unigolion y mae eu harfer yn eu galluogi i ddangos tystiolaeth o rai Dimensiynau. **Dangosir effeithiolrwydd arfer mewn addysgu a/neu gefnogi dysgu drwy dystiolaeth o:**

- **D1.1** defnydd o Werthoedd Proffesiynol priodol, gan gynnwys **o leiaf V1 a V3**
- **D1.2** cymhwyso Gwybodaeth Graidd briodol, **gan gynnwys o leiaf K1, K2 a K3**
- **D1.3** arfer effeithiol a chynhwysol mewn **o leiaf ddau o'r pum Maes Gweithgarwch**

Fel y dangosir uchod, mae datganiadau meini prawf Disgrifydd 1 yn ymgorffori Dimensiynau penodol; dangosir 15 Dimensiwn PSF 2023 yn Ffigur 2 isod.



Ffigur 2: PSF 2023 Dimensiynau'r Fframwaith

3.1 Addysg Uwch a chymhwysra ar gyfer Cymrodoriaeth

Mae PSF 2023 yn nodi'r safonau proffesiynol ar gyfer addysg uwch (AU). Mae'n rhaid i'r holl brofiad a thystiolaeth a gynhwysir mewn cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol ymwneud ag arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu sy'n berthnasol i ddarpariaeth addysg uwch, megis:

- lefel 4 neu uwch y **Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Addysg Uwch (FHEQ)** yn Lloegr, Cymru a Gogledd Iwerddon, neu **gyfatebol**;
- lefel 7 neu uwch **Fframwaith Credydau a Chymwysterau'r Alban (SCQF)** ar y Fframwaith ar gyfer Cymwysterau Sefydliadau Addysg Uwch yn yr Alban (FQHEIS) neu **gyfatebol**;
- cylch cyntaf neu uwch **Fframwaith Cymwysterau Ardal Addysg Uwch Ewrop** (QF-EHEA);
- lefel 5 neu uwch **Fframwaith Cymwysterau Awstralia (AQF)** neu **gyfatebol**;
- lefel 5 neu uwch **Fframwaith Cymwysterau Seland Newydd** neu fframweithiau addysg uwch **cyfatebol** eraill;
- fframweithiau addysg uwch cyfatebol eraill;
- yn ogystal gellir ystyried gweithgarwch sy'n canolbwyntio ar gefnogi myfyrwyr o fewn cyd-destun Addysg Uwch fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch uchod, ar yr amod bod y dysgwr(wyr) wedi'u cofrestru ar Gymhwyster Addysg Uwch;
- gellir hefyd ystyried cyflwyno peth datblygiad proffesiynol parhaus nad yw wedi'i achredu i staff academiaidd a staff cymorth dysgu fel tystiolaeth sy'n cyfateb i'r fframweithiau addysg uwch.

Mae PSF 2023 yn cydnabod yr amrywiaeth eang o gyd-destunau lleol a byd-eang y mae addysg uwch yn gweithredu ynddynt, a'r arferion a'r rolau amrywiol sy'n cyfrannu at ddysgu o ansawdd uchel.


Wrth ddiffinio beth yw addysgu a dysgu mewn AU mewn cyd-destunau rhyngwladol gwahanol, er mwyn pennu cymhwysra ar gyfer cymrodoriaeth, mae AU Ymlaen yn defnyddio **UK ENIC** (Canolfan Wybodaeth Genedlaethol y DU) i gael gwybodaeth am fframweithiau addysg a chymwysterau rhyngwladol. Bydd rhaglenni'n cael eu diffinio'n rhai AU, at ddibenion penderfynu a yw staff sy'n addysgu a chefnogi dysgu ar y rhaglen yn gymwys am Gymrodoriaeth, os ydynt yn rhan annatod o raglen a ddiffinnir fel un addysg uwch yng nghyd-destun y wlad astudio.

Mae'r diffiniad o'r hyn sy'n gyfystyr ag addysg uwch wedi'i ddiffinio ymhellach ar gyfer staff yn **y DU ac Awstralia**. Os ydych yn ansicr a yw'r enghreifftiau o arfer yn eich cais yn

cyflawni'r gofynion uchod o ran cymhwysra, cysylltwch â heaapplications@uwtsd.ac.uk

4. Sut i ddatblygu eich cais

Wrth gynllunio a datblygu eich cais, disgwylir i chi gyrchu'r adnoddau yn y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle, a dilyn y dilyniant o weithgareddau a nodir yn Ffigur 3 isod.



4.1 Cam 1

Mae Adran 3 uchod yn egluro Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023. Caiff eich cais ei adolygu yn erbyn Disgrifydd 1 y fframwaith hwn.

Disgwylir i chi gwblhau fideo hyfforddi PSF2023 ar y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle. Mae'r fideo rhyngweithiol hwn yn cyflwyno PSF2023 ac yn rhoi enghreifftiau a chwestiynau i feddwl amdanynt i'ch cefnogi ar eich taith am gymrodoriaeth.

Cyn dechrau defnyddio'r canllawiau hyn, rydym yn eich cyngori i gwblhau Offeryn Categori Cymrodoriaeth AU Ymlaen, [Fellowship Category Tool](#) (fersiwn PSF 2023), sy'n rhad ac am ddim i'w ddefnyddio ar wefan AU Ymlaen (mae'r ddolen ar gael ar y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle).

Mae'r Offeryn Categori Cymrodoriaeth (FCT) yn cynnwys set o ddatganiadau sy'n cyd-fynd â Dimensiynau gwahanol Fframwaith a Disgrifyddion PSF 2023. Bydd yr offeryn hunan-ddadansoddi hwn yn gofyn am eich gweithgareddau proffesiynol o ran addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch (AU). Trwy ddefnyddio'r offeryn i ystyried eich arfer presennol a diweddar, dylai eich dewis o ddatganiadau wrth i chi symud ymlaen helpu i gadarnhau mai Cymrodoriaeth Gysylltiol yw'r categori mwyaf priodol o gymrodoriaeth i chi. Sylwch fod cywirdeb yr offeryn yn dibynnu ar y dewisiadau rydych chi'n eu dewis wrth i chi weithio drwyddo. Wrth i chi edrych drwy'r dogfennau canllaw, os ydych chi'n teimlo nad ydych eto yn gallu darparu

tystiolaeth ddigonol ar gyfer Disgrifydd 1, yna gallwch ddefnyddio'r adroddiad a ddarperir drwy ymgymryd â'r FCT i lywio datblygiad eich arfer ymhellach cyn gwneud cais llwyddiannus.

Yn y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle, fe welwch y canlynol:

- [Guide to the PSF 2023 Dimensions – Associate Fellowship](#)
- Cymrodoriaeth Gysylltiol: Canllawiau i Ymgeiswyr (y ddogfen hon)
- Templed Cais Cymrodoriaeth Gysylltiol
- Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Cefnogi a'r Templed Datganiad Cefnogi cysylltiedig (i'w ddefnyddio gan eich canolwr)
- Fframwaith Safonau Proffesiynol (PSF) 2023
- Dolen i Offeryn Categori Cymrodoriaeth AU Ymlaen / [Advance HE Fellowship Category Tool](#) (fersiwn PSF 2023)
- Fideo hyfforddi PSF 2023

Ar ôl i chi ddarllen y canllawiau hyn, cwblhau'r fideo hyfforddi a defnyddio'r Offeryn Categori Cymrodoriaeth, bydd angen i chi ofyn am, a chael eich neilltuo i, fentor. Bydd angen i chi anfon e-bost i heaapplications@uwtsd.ac.uk gyda'r wybodaeth ganlynol:

1. Eich enw
2. Eich disgyblaeth a'ch athrofa, neu'ch uned (fel y bo'n briodol)
3. Y categori o gymrodoriaeth rydych chi'n gwneud cais amdano

4.2 Cam 2

Canllaw i Ddimensiynau PSF 2023 – Cymrodoriaeth Gysylltiol (D1)

Rydym yn argymhell eich bod yn dechrau trwy ddarllen '[Guide to the PSF 2023 Dimensions - Associate Fellowship](#)' gan AU Ymlaen (D1). Mae'r canllaw hwn yn cyflwyno ac yn esbonio PSF 2023 ac yna'n canolbwyntio ar bob un o 15 Dimensiwn PSF 2023 i'ch cefnogi i feddwl am eich arfer a nodi tystiolaeth bosibl sy'n briodol i Ddisgrifydd 1 (D1) PSF 2023, sy'n sail i ddyfarnu Cymrodoriaeth Gysylltiol.

Mae'r Canllawiau hyn yn canolbwyntio ar bob Dimensiwn yn fanwl iawn. Rydym yn cynnwys llawer o enghreifftiau gwahanol o arfer i adlewyrchu'r ystod eang o rolau a chyd-destunau y mae ymarferwyr AU yn gweithio ynddynt yn y sector addysg uwch byd-eang. Yn ogystal mae cwestiynau promptio i'ch helpu i feddwl am eich arfer mewn perthynas â phob Dimensiwn. Mae'r cwestiynau a'r enghreifftiau a ddarperir yn rhai dangosol yn unig ac efallai na fyddant yn berthnasol i'ch arfer chi; efallai y bydd gennych enghreifftiau gwahanol priodol, yn dibynnu ar eich cyd-destun unigryw eich hun.

Y man cychwyn ar gyfer eich cais fydd penderfynu pa ddau o'r pum Maes Gweithgarwch sydd fwyaf priodol i'ch arfer eich hun. Yna byddwch yn gallu canolbwyntio eich defnydd o'r Canllawiau ar yr adrannau mwyaf perthnasol i chi a'ch cyd-destun chi, i ddechrau nodi tystiolaeth i'w defnyddio yn eich cais.

Gweithio gyda'ch mentor

Bydd mentor yn cael ei neilltuo i chi a fydd yn eich cefnogi wrth ystyried eich arfer a'ch cais. Disgwylir i chi a'r mentor gwrdd 5 gwaith. Gall eich mentor ddarllen un drafft o'ch cais.

Canllawiau i ymgeiswyr am Gymrodoriaeth Gysylltiol

Ar ôl i chi benderfynu pa ddau Faes Gweithgarwch fydd yn sail i'ch cais, ac wedi i chi nodi sut yn eich cyd-destun chi rydych wedi defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol priodol (o leiaf V1 a V3) a chymhwyso Gwybodaeth Graidd (o leiaf K1, K2 a K3) yn eich arfer, dylech wedyn ddechrau defnyddio'r ddogfen ganllaw hon i ymgeiswyr i ddeall fformat a gofynion y cais yn ogystal â sut i gyflwyno cais.

Templed Cais Drafft am Gymrodoriaeth Gysylltiol

Defnyddiwch y templed dogfen Word i ysgrifennu a chwblhau eich cais drafft. Dyma'r ddogfen y bydd angen i chi ei chyflwyno hefyd.

4.3 Cam 3

Ar ôl i chi ddrafftio'ch cais, dylech ei rannu gyda'ch mentor i gael adborth. Mae'n bwysig eich bod wedi trafod amseriad hyn gyda'ch mentor i sicrhau bod ganddyn nhw ddigon o amser i ddarllen eich drafft a bod gan y ddau ohonoch yr amser i gyfarfod i drafod.

Unwaith y bydd eich cais drafft wedi'i gwblhau, mae angen i chi rannu hyn gyda'ch canolwr. Yna byddant yn gallu defnyddio'r 'Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Cefnogi' a'r Templed Datganiad Cefnogi cysylltiedig. Mae angen i'r canolwr anfon y Datganiad Cefnogi atoch.

Ar ôl i chi dderbyn y Datganiad Cefnogi, gallwch wedyn gyflwyno'r cais a'r Datganiad Cefnogi yn y ddolen gyflwyno briodol ar y modwl Cymrodoriaeth ar Moodle erbyn y dyddiad cyflwyno nesaf.

5. Eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol

Mae **dwy ran** i'ch cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol:

- **Adroddiad ysgrifenedig am Arfer Proffesiynol**; Datganiad Cyd-destun a Naratif Adfyfyriol yn erbyn dau o Feysydd Gweithgarwch PSF 2023 (gweler Adran **Error! Reference source not found.**)
- un Datganiad Cefnogi (gweler Adran **Error! Reference source not found.**)

Mae Cymrodoriaeth Gysylltiol yn seiliedig ar fodloni Disgrifydd 1 (D1) PSF 2023 a'ch Adroddiad am Arfer Proffesiynol yw craidd eich cais.

Mae'r Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn cynnwys Datganiad Cyd-destun (gweler Adran **Error! Reference source not found.**) ac Adroddiad Adfyfyriol am Arfer yn erbyn dau o Feysydd Gweithgarwch PSF 2023.

Mae eich **Datganiad Cyd-destun** yn darparu crynodeb byr o'ch rolau addysg uwch, eich cyfrifoldebau a'ch profiad proffesiynol a dylai eich **Naratif Adfyfyriol** ddarparu tystiolaeth bod eich arfer proffesiynol yn bodloni gofynion **Disgrifydd 1** PSF 2023.

Mae sawl ffurf o addysg uwch a cheir cryn amrywiaeth yn y gwahanol rolau y mae gweithwyr proffesiynol addysg uwch yn eu cyflawni; er enghraifft, o ran profiad, cefndir disgyblaethol, rôl swydd, cyd-destun sefydliadol, ac ati. Mae eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn gyfrif personol a dylai ganolbwyntio drwyddi draw ar eich arfer proffesiynol eich hun; gwnewch e'n bersonol i'ch arfer penodol, unigol ac unigryw chi. Bydd eich Datganiad Cefnogi yn cadarnhau bod yr hyn rydych chi'n ysgrifennu amdano yn eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn cynrychioli eich arfer mewn ffordd ddilys (gweler Adran **Error! Reference source not found.**).

Mae dyfarniad Cymrodoriaeth Gysylltiol yn seiliedig ar dystiolaeth o'ch arfer effeithiol a chynhwysol; efallai y byddwch yn sôn yn fyr am gynlluniau ar gyfer y dyfodol fel rhan o nodi'r hyn sydd wedi gweithio'n dda ac unrhyw newidiadau rydych chi'n bwriadu eu gwneud yn y dyfodol, fodd bynnag, bydd eich cais yn cael ei farnu yn ôl a yw'ch tystiolaeth o arfer cyfredol a diweddar yn bodloni gofynion Disgrifydd 1.

Yn eich **Naratif Adfyfyriol**, dylech gynnwys rhesymeg briodol dros y dulliau rydych chi'n eu defnyddio a thystiolaeth o lwyddiant ac effeithiolrwydd eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu. Dylai eich Naratif Adfyfyriol fod yn seiliedig ar enghreifftiau go iawn o'ch arfer a dylai wneud yn glir **beth** rydych chi'n ei wneud, **pam/sut** rydych chi'n ei wneud y ffordd honno a **sut rydych chi'n gwybod** bod hyn yn **effeithiol**.

Bydd ysgrifennu 'pam y gwnaethoch hynny y ffordd honno' yn eich galluogi i ddarparu tystiolaeth ar gyfer V3: defnyddio ysgolheictod, neu ymchwil, neu ddysgu proffesiynol, neu ddulliau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth fel sail ar gyfer arfer effeithiol.

Rhowch enghreifftiau **dethol** o arfer yn eich Naratif Adfyfyriol a sicrhewch eu bod yn uniongyrchol berthnasol i'ch cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol. Mae ansawdd yr enghreifftiau o dystiolaeth yn bwysicach o lawer na'r nifer. Dylid tynnu enghreifftiau o arfer cyfredol a diweddar (o fewn y 3 blynedd diwethaf) a rhaid iddynt ymwneud ag addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch. Os ydych chi'n adfyfyrio ar unrhyw arfer proffesiynol hanesyddol fel rhan o'ch tystiolaeth, gwnewch yn siŵr eich bod yn canolbwyntio ar sut mae hyn bellach yn effeithio ar eich arfer cyfredol.

5.1 Mae eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn adroddiad personol

Meddylwch am eich cais fel 'hawliad'; rydych chi'n hawlio bod eich gwaith yn effeithiol ac yn cael effaith gadarnhaol ar y dysgu gan fyfyrwyr. Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ddau adolygydd cymheiriaid profiadol ac mae angen i chi ddangos i'r adolygwyr hyn bod rhesymeg glir y tu ôl i'r ffordd rydych chi'n gweithio a'r dewisiadau rydych chi'n eu gwneud yn eich arfer.

Ysgrifennwch yn y person cyntaf (defnyddiwch 'i/fi/mi') er mwyn gwneud yn glir beth rydych chi'n ei wneud/wedi ei wneud. Ceisiwch osgoi trafod addysgu mewn termau cyffredinol neu haniaethol gan fod hyn yn symud y cais i ffwrdd o fod amdanoch chi a'ch arfer personol eich hun ac ni fydd yn helpu eich 'hawliad' personol yn erbyn Disgrifydd 1. Os ydych chi eisiau cynnwys gwaith a wnaethoch fel rhan o dîm/gyda chydweithwyr, mae angen i chi fod yn glir beth oedd eich cyfraniad personol chi.

Rhaid cyflwyno eich cais yn **Gymraeg neu Saesneg**.

Sylwch **na fyddwn** yn derbyn diagramau, delweddau, hyperddolenni nac unrhyw ddogfennau/atodiadau eraill fel curriculum vitae/crynodeb.

Wrth ddewis y **ddau o'r pum Maes Gweithgarwch PSF** y byddwch yn adfyfrio arnynt fel rhan o'ch cais, dylech ddefnyddio Offeryn Categori Cymrodoriaeth ([Fellowship Category Tool](#)) AU Ymlaen a thrafod gyda'ch mentor pa feysydd sydd fwyaf priodol i chi.

5.2 Datganiad Cyd-destun

Datganiad **Cyd-destun** (hyd at 300 gair) yw rhan gyntaf eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol a dylech gyflwyno'ch hun yn **gryno** ac **amlinellu** eich rôl(au) a'ch cyfrifoldebau addysgu a/neu gefnogi dysgu mewn addysg uwch. Bydd y wybodaeth yn eich Datganiad Cyd-destun yn helpu'r adolygwyr i ddeall natur eich gwaith a'r cyd-destun lle rydych chi'n arfer, cyn iddynt edrych ar y dystiolaeth a ddarparwch yn eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn erbyn Disgrifydd 1 PSF 2023; mae'r adran hon yn darparu **cefnidir** eich Naratif Adfyfyriol ac nid yw'n cael ei 'asesu' yn ei erbyn Disgrifydd 1.

Mewn dim mwy na 300 o eiriau dylai eich Datganiad Cyd-destun:

- Roi crynodeb **byr** o'ch profiad o addysgu a/neu gefnogi dysgu, gan gynnwys y cyd-destun rydych chi'n gweithio ynddo ar hyn o bryd, eich rôl a'ch cyfrifoldebau presennol wrth addysgu a/neu gefnogi dysgu. Nodwch y math o sefydliad(au) rydych chi'n gweithio iddynt a'r lleoliad, gan y bydd hyn yn helpu i nodi'r cyd-destun ar gyfer eich gwaith, ond cadwch hyn yn fyr ac yn berthnasol i'ch rôl. Peidiwch â chynnwys manylion am hanes a bri y sefydliad(au), gan fod eich Adroddiad am Arfer Proffesiynol yn ymwneud â chi a'ch arfer;
- Nodwch y myfyrwyr rydych chi'n gweithio gyda nhw; er enghraifft, y lefel astudio (e.e. blwyddyn astudio, israddedig, ôl-raddedig, ac ati), rhaglen(ni)/uned(au) astudio, disgyblaeth/maes arbenigedd, nifer a mathau o ddysgwyr ac ati;
- Canolbwyntiwch ar eich **arfer cyfredol neu ddiweddar**, a ddylai fod o fewn y 3 blynedd diwethaf. Cofiwch fod eich cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol yn seiliedig ar eich **arfer addysg uwch**; os ydych hefyd yn gweithio mewn rolau addysgu neu ddysgu eraill y tu allan i addysg uwch, ni ddylech gynnwys hyn yn eich cais (cyfeiriwch at Adran **2** am ragor o wybodaeth am gymhwysra ar gyfer Cymrodoriaeth Gysylltiol).

Gan nad yw'r Datganiad Cyd-destun yn cael ei asesu yn rhan o'ch cais, nid oes angen i chi gysylltu'r wybodaeth hon â'r PSF. Ni fydd yr adolygwyr yn ystyried y wybodaeth yn y Datganiad Cyd-destun pan fyddant yn asesu eich cais; felly, **ni ellir** ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth atodol a fyddai'n ychwanegu tystiolaeth o arfer effeithiol i'ch cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol yn eich Naratif Adfyfyriol (h.y. ni ellir ei ddefnyddio i ymestyn terfyn geiriau eich Naratif Adfyfyriol).

Mae'r ddwy enghraifft isod yn dangos y mathau o wybodaeth sy'n ddefnyddiol i'w cynnwys yn y Datganiad Cyd-destun i osod cefndir eich ymarfer:

Enghraifft 1:

Rwy'n fyfyrwr PhD yn fy nhrydedd flwyddyn mewn prifysgol ymchwil-ddwys. Rwyf wedi cymryd rhan mewn amrywiol weithgareddau addysgu a chefnogi dysgu dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Rwy'n arwain seminarau i grwpiau o rhwng 10 a 15 o fyfyrwr israddedig sy'n astudio Sbaeneg ym mlynnyddoedd 1 a 2. Mae pynciau'r seminarau'n cynnwys diwylliant, hanes a gwleidyddiaeth Sbaen. Mae'r rhain fel arfer yn para rhwng awr a dwy awr ac yn rhoi'r cyfle i ni drafod pynciau penodol yn fanylach. Er bod pynciau ac amserlen y seminarau wedi eu gosod o flaen llaw, rwy'n datblygu fy neunyddiau seminar fy hun gyda chefnogaeth gan y tîm academiaidd. Rwy'n defnyddio llwyfan Amgylchedd Dysgu Rhithwir y Brifysgol i gynnal adnoddau a gweithgareddau.

Rwyf hefyd yn addysgu'r modwl Mandarin i Ddechreuwr, a gynigir i bob myfyrwr iaith israddedig yn eu hail flwyddyn; mae hyn yn cynnwys darlith wythnosol i tua 40 o fyfyrwr israddedig a phedwar tiwtorial yr wythnos i grwpiau o 4-5 o fyfyrwr.

Enghraifft 2:

Rwy'n llyfrgellydd profiadol, gyda chymwysterau proffesiynol ym Mhrifysgol X ac mae gen i gyfrifoldeb penodol am gefnogi myfyrwr yng Nghyfadrann y Dyniaethau a Gwyddorau Cymdeithasol, ac rwyf hefyd yn helpu i ddarparu agenda sgiliau academiaidd y llyfrgell. Rwyf wedi gweithio yn y Brifysgol ers tair blynedd ac rwy'n rhan o dîm bychan o bedwar aelod o staff y llyfrgell yn y gyfadrann. Mae'r Brifysgol yn brifysgol fodern fawr gyda phedair cyfadrann a thua 20,000 o fyfyrwr israddedig ac 8,000 o fyfyrwr ôl-raddedig. Mae fy nghyfadrann yn denu cyfran uchel o fyfyrwr ail iaith rhyngwladol.

Mae fy mhrif waith addysgu'n waith wyneb yn wyneb mewn sesiynau yn y dosbarth ar amserlen gyda grwpiau o 20-30 o fyfyrwr israddedig blwyddyn gyntaf yn eu semester cyntaf. Rwy'n gweithio'n agos â staff academiaidd ac rwy'n cynllunio fy sesiynau i gyd-fynd ag amcanion eu rhaglenni. Mae fy sesiynau'n para hyd at 1.5 awr fel arfer.

Rwyf hefyd yn llunio ac yn darparu sesiynau hunan-gofrestru wyneb yn wyneb gyda grwpiau bach o fyfyrwr israddedig ac ôl-raddedig ar ein prif safle a myfyrwr yn ein dau gampws tramor drwy gyswllt fideo.

Ar hyn o bryd rwy'n cymryd rhan mewn prosiect ledled y Brifysgol i ganfod cydberthynas rhwng presenoldeb mewn gweithdai sgiliau a chyrhaeddiad, yn enwedig i grwpiau sydd wedi tanberfformio'n hanesyddol.

5.3 Strwythuro eich Naratif Adfyfyriol

Mae'r **Naratif Adfyfyriol** ysgrifenedig wedi ei rannu'n ddwy ran; rydych yn ysgrifennu am eich arfer mewn perthynas â **dau o bum Maes Gweithgarwch y PSF**. Dylech ddewis ysgrifennu am y ddau Faes Gweithgarwch sydd fwyaf priodol i'ch arfer chi (**gweler Adran 6 isod i gael rhagor o arweiniad**). Bydd gennych **700** o eiriau ar gyfer pob un o'r ddau faes.

Yn ogystal â chwmpasu dau Faes Gweithgarwch (D1.3), er mwyn mynd i'r afael â D1.1 a D1.2 mae angen i chi hefyd wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys tystiolaeth ar draws dwy ran y Naratif Adfyfyriol i ddangos eich bod yn defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol priodol, o leiaf V1 a V3, yn effeithiol; ac yn cymhwyso Gwybodaeth Graidd briodol, o leiaf K1, K2 a K3.

Yn ogystal â'r Dimensiynau gorfodol sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 1, rydych chi'n debygol o nodi Gwerthoedd Proffesiynol eraill a ddefnyddiwyd gennych a mathau eraill o Wybodaeth Graidd y gwnaethoch eu cymhwyso o fewn yr enghreifftiau o arfer rydych chi'n ysgrifennu amdanynt. Yn yr achosion hyn, gwnewch yn glir pam a sut y gwnaethoch chi ddefnyddio/cymhwyso'r rhain.

Cofiwch barhau i ddefnyddio'r [Guide to Understanding the PSF 2023 Dimensions Associate Fellowship](#) i'ch cefnogi i wneud cysylltiadau rhwng eich arfer a'r Dimensiynau mwyaf perthnasol ac i ddewis tystiolaeth i'w chynnwys wrth i chi ddatblygu eich naratif.

Wrth i chi ddarparu tystiolaeth yn erbyn y Dimensiynau, dylech dynnu sylw at hyn lle bo hynny'n berthnasol. Un ffordd o wneud hyn yw cyfeirio at y Dimensiwn yn eich testun, e.e. (V2) neu (K1) ac ati. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cysylltu â'r **Dimensiynau mwyaf perthnasol** ym mhob achos yn unig (e.e. un neu ddau rydych chi wedi ymgysylltu â nhw mewn ffordd ystyrlon yn yr enghraifft benodol honno o arfer) a dylech osgoi cynhyrchu rhestrau hir o gysylltiadau â Dimensiynau (e.e. K1, K2, K4, V1, V2, V3) gan na fydd hyn yn dangos eich ymgysylltiad *ystyrlon* â'r Dimensiynau. Wrth benderfynu pa enghreifftiau o arfer rydych chi'n mynd i'w defnyddio ar gyfer pob un o'r ddau Faes Gweithgarwch, ceisiwch ddefnyddio gwahanol enghreifftiau ym mhob Maes sy'n dangos orau eich ymgysylltiad â Dimensiynau penodol. Mae'n bwysig nad ydych chi'n dibynnu ar yr un enghreifftiau ym mhob un o'r ddau Faes Gweithgarwch gan fod hyn yn annhebygol o ddarparu *digon* o dystiolaeth bod eich arfer yn bodloni holl ofynion Disgrifydd 1. Fodd bynnag, dewiswch eich enghreifftiau yn ofalus gan y bydd gormod o enghreifftiau yn cyfyngu ar eich gallu i ddangos eich arfer llwyddiannus ac effeithiol yn erbyn pob Maes Gweithgarwch er mwyn gwneud 'hawliad' cadarn yn erbyn Disgrifydd 1.

O fewn y geiriau cyfyngedig sydd ar gael ni fyddwch yn gallu ysgrifennu am bopeth rydych chi'n ei wneud a rhaid i chi fod yn ddetholus am yr enghreifftiau rydych chi'n dewis ysgrifennu amdanynt. Dewiswch enghreifftiau sy'n dangos orau eich gwaith ym mhob Maes Gweithgarwch a ddewiswyd ac sydd hefyd yn eich galluogi i ddangos yr elfennau penodol o'r Wybodaeth Graidd a'r Gwerthoedd Proffesiynol sy'n ofynnol (**gweler Adran [Error! Reference source not found.](#) isod sy'n ymwneud ag uchafswm geiriau**).

5.4 Uchafswm geiriau'r Naratif Adfyfyriol

Yr uchafswm geiriau cyffredinol ar gyfer Naratif Adfyfyriol Cymrawd Cysylltiol yw **1,400 o eiriau ynghyd â dyfyniadau (200 o eiriau); uchafswm cyffredinol o 1,600 o eiriau**. Sylwch fod y Swyddfa Academaidd yn gwirio'r cyfanswm geiriau yn rhan o'r broses gyflwyno.

Mae angen tua 700 o eiriau ym mhob un o'r ddwy ran ynghyd â dyfyniadau.

5.5 Adfyfyrio ar eich arfer drwy gydol eich Naratif Adfyfyriol

Mae datblygu eich Naratif Adfyfyriol yn gofyn i chi nodi/casglu ac ystyried tystiolaeth o'ch arfer, gan adfyfyrio ar yr effaith rydych chi wedi'i chael ar y dysgu gan fyfyrwyr. Wrth ysgrifennu eich Naratif Adfyfyriol, dylech osgoi disgrifiadau hir o'r hyn rydych chi'n 'ei wneud' a siarad yn **adfyfyriol** fel ei bod yn glir beth rydych chi'n ei wneud, sut/pam rydych chi'n ei wneud y ffordd honno, sut rydych chi'n gwybod bod hyn yn effeithiol a beth fyddwch chi'n ei wneud yn y dyfodol o ganlyniad.

Un **model adfyfyriol syml** y gallech ei ddefnyddio drwy gydol eich Naratif Adfyfyriol fyddai esbonio'n glir:

- **Beth** rydych chi'n ei wneud (byddwch yn ddetholus gyda'r enghreifftiau y dewiswch eu cynnwys – gweler Adran **Error! Reference source not found.**);
- **Pam** rydych chi'n ei wneud fel hyn; esboniwch eich dull yn glir a chyfiawnhau eich dewisiadau a'ch penderfyniadau (e.e. defnyddio dull priodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i weddu i'ch cyd-destun, ac ati);
- **Sut** rydych chi'n cyflawni'r dull hwn (e.e. gan gynnwys unrhyw heriau penodol neu faterion ymarferol rydych chi wedi'u goresgyn);
- Sut rydych chi'n **gwerthuso effeithiolrwydd** yr hyn rydych chi'n ei wneud (esboniwch y mathau o 'wybodaeth' rydych chi'n eu defnyddio i adolygu a gwerthuso eich gwaith gan gynnwys yr effaith y mae hyn yn ei chael ar y dysgu gan eich dysgwyr);
- **Pa newidiadau** rydych chi wedi'u gwneud o ganlyniad i werthuso eich effeithiolrwydd (er enghraifft, efallai eich bod wedi addasu sesiwn mewn ymateb i adborth gan ddysgwyr/cymheiriaid ac yna wedi gwerthuso effeithiolrwydd y newid a weithredwyd gennych);

5.6 Rhestr Gyfeiriadau

Trwy gydol eich Naratif Adfyfyriol byddwch yn cyfeirio at y ffynonellau gwybodaeth rydych chi wedi'u defnyddio yn eich arferion addysgu a/neu gefnogi dysgu. Er enghraifft, o ran K2 mae gofyn i chi ddod â sylfaen wybodaeth o ddulliau addysgu a/neu gefnogi dysgu i'ch arfer, sy'n briodol i'ch cyd-destun. Wrth ddangos tystiolaeth ar gyfer K2, gallech egluro pam y dewisoch chi ddull penodol a sut y daethoch i wybod amdano (e.e. erthygl mewn cyfnodolyn, datblygiad proffesiynol, cynhadledd, mentora gan gydweithwyr, ac ati).

Pan fyddwch yn cyfeirio at ffynhonnell wybodaeth sydd wedi dylanwadu ar eich arfer, dylech 'ddyfynnu' y cyfeiriad yn eich testun i gydnabod yr awdur(on)/sefydliad yn briodol. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n adolygu'ch cais i fod yn glir ynghylch pa ffynonellau sydd wedi dylanwadu ar eich arfer a'i ysbrydoli. Pryd bynnag y byddwch chi'n dyfynnu yn y testun, mae angen i chi gynnwys y cyfeiriad llawn mewn rhestr ar ddiwedd eich Naratif Adfyfyriol. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn defnyddio dull Harvard o gyfeirnodu yn y testun.

Yr uchafswm geiriau ar gyfer y Rhestr Gyfeiriadau yw 200 o eiriau.

Mae'r darn byr o gais Cymrodoriaeth Gysylltiol isod yn dangos sut mae'r ymgeisydd yn dyfynnu'r erthygl o gyfnodolyn a ysbrydolodd gynllun ei ddarlith ac yn cynnwys y cyfeiriad llawn yn y Rhestr Gyfeiriadau:

'Wrth lunio fy sesiynau seminar fy hun, cefais fy nylanwadu gan ddamcaniaeth dylunio cyffredinol Burgstahler (2015). Meddyliais am natur amrywiol y dysgwyr yn fy ngrŵp a'u diwylliannau a'u cefndiroedd addysgol, i sicrhau bod y gweithgareddau a ddewisais yn adlewyrchu eu hunaniaethau, eu diddordebau a'u hanghenion. (V1)'.

Y Rhestr Gyfeiriadau ar gyfer y dyfyniad

Burgstahler, S. (2015). *Equal access: Universal design of instruction. A checklist for inclusive teaching*. Seattle: DO-IT, University of Washington. Ar gael yn http://www.washington.edu/doit/Brochures/Academics/equal_access_udi.html (cyrchwyd 14/02/23)

6. Dangos tystiolaeth o Ddimensiynau PSF 2023 sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 1

Mae penderfynu pa ddau Faes Gweithgarwch i seilio eich Naratif Adfyfyriol arnynt yn gam cyntaf pwysig wrth gynllunio a datblygu eich cais.

Dylech ddefnyddio'r '[Guide to the PSF 2023 Dimensions – Associate Fellowship](#) (D1)' i'ch cynorthwyo i ddewis y ddau Faes Gweithgarwch mewn un o'r ffyrdd canlynol:

- Ystyriwch y canllawiau a'r cwestiynau promptio ar gyfer pob un o'r pum Maes Gweithgarwch ac yna gwnewch eich dewis pan fyddwch wedi mapio eich tystiolaeth debygol yn erbyn pob un. Yna byddwch yn gallu penderfynu pa ddau Faes Gweithgarwch fydd yn gwneud yr hawliad cryfaf yn erbyn Disgrifydd 1; neu
- ar y llaw arall, efallai y bydd yn glir iawn i chi ar unwaith bod eich tystiolaeth yn gysylltiedig â dau Faes Gweithgarwch penodol oherwydd eich cyd-destun a natur eich arfer; yn yr achos hwnnw canolbwyntiwch eich sylw ar yr adrannau perthnasol yn y canllaw.


Er bod y Naratif Adfyfyriol ar gyfer ceisiadau am Gymrodoriaeth Gysylltiol wedi'i strwythuro o amgylch **dau** o'r pum Maes Gweithgarwch, nid yw hyn yn golygu bod y Meysydd Gweithgarwch yn bwysicach na Dimensiynau Gwybodaeth Graidd neu Werthoedd Proffesiynol PSF 2023.

Yn ogystal â defnyddio'r 'Guide to the PSF 2023 Dimensions' i nodi eich dau Faes Gweithgarwch, dylech hefyd ddefnyddio'r canllawiau i nodi ble rydych chi'n defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol ac yn cymhwyso Gwybodaeth Graidd yn eich arfer.

Ar draws 1,400 o eiriau eich Naratif Adfyfyriol, yn ogystal â dangos tystiolaeth o ddau Faes Gweithgarwch, mae angen i chi sicrhau bod eich tystiolaeth yn cynnwys defnyddio Gwerthoedd Proffesiynol priodol, o leiaf V1 a V3, a chymhwyso Gwybodaeth Graidd, o leiaf K1, K2 a K3.

Mae'n debyg y bydd gennych dystiolaeth o'ch arfer sy'n cynnwys rhai Dimensiynau eraill yn ychwanegol at y rhai sy'n ofynnol ar gyfer Disgrifydd 1; gallwch gynnwys tystiolaeth o rai o'r Dimensiynau ychwanegol hyn yn eich cais lle maent yn fwyaf perthnasol (gweler Adran 4.3).

Mae'r Dimensiynau yn rhyng-ddibynnol ac wedi'u hintegreiddio yng nghyd-destun eich arfer proffesiynol; yn syml, y Meysydd Gweithgarwch yw'r hyn rydych chi'n ei wneud, rydych chi'n defnyddio'r Gwerthoedd Proffesiynol i lywio eich gwaith a bod yn sail iddo, a'r Wybodaeth Graidd yw'r hyn y mae angen i chi ei gymhwyso i gyflawni'r gwaith hwn yn effeithiol.



Ffigur 1: Yn dangos sut mae Dimensiynau'r PSF wedi'u hintegreiddio yn Nisgrifydd 1

Cymrodoriaeth Gysylltiol (Disgrifydd 1)

Enghraifft i ddangos sut mae'r Dimensiynau'n rhyng-ddibynnol ac wedi eu hintegreiddio:

Wrth ddylunio a chynllunio gweithgaredd dysgu (A1) rwy'n cymhwyso fy ngwybodaeth am sut mae dysgwyr yn dysgu o fewn y pwnc hwn (K1) ac yn dewis dull dysgu ac addysgu priodol (K2). Rwy'n ystyried anghenion unigolion o fewn fy ngrŵp dysgwyr (V1) ac yn cynllunio'n briodol i sicrhau y bydd y dysgwyr i gyd yn gallu cymryd rhan yn llawn (V2). Rwy'n datblygu adnoddau priodol i ddefnyddio a llunio cwis ar-lein i asesu'r dysgu sydd wedi digwydd yn y sesiwn hon (K4, A3).

6.2 Enghreifftiau o Arfer ar gyfer pob Maes Gweithgarwch

Y '[Guide to the PSF 2023 Dimensions](#)' yw eich prif ffynhonnell wybodaeth ynghylch pa dystiolaeth o'ch arfer effeithiol a chynhwysol (D1.3) y gallech ei chynnwys yn eich cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol.

Mae'r enghreifftiau byr isod wedi'u cynnwys i'ch helpu i ddeall sut mae cynllunio dystiolaeth o amgylch y ddau Faes Gweithgarwch mewn cais hefyd yn ymgorffori'r defnydd o Werthoedd Proffesiynol a chymhwyso Gwybodaeth Graidd.

Enghraifft i'ch helpu i feddwl am A1: Dylunio cyfres fer o weithdai sgiliau astudio

Yn ddiweddar mae Hassan wedi cynnal cyfres fer o weithdai sgiliau astudio ar gyfer myfyrwyr israddedig blwyddyn gyntaf ac mae'n penderfynu defnyddio hyn fel un o'i esiamplau o dystiolaeth tuag at A1.

Yn yr enghraifft hon, mae Hassan yn esbonio sut y defnyddiodd ei wybodaeth am sgiliau astudio wrth lunio a chynllunio'r gweithdai (K1). Mae'n trafod anghenion penodol ei grŵp blwyddyn gyntaf o fyfyrwyr israddedig a sut mae wedi ystyried amrywiaeth eu profiad dysgu blaenorol a'u hanghenion dysgu unigol i gynllunio ei ddull (V1, K2). Mae'n amlinellu'r heriau y mae tiwtoriaid eraill wedi eu hwynebu yn y gorffennol wrth ddarparu'r gweithdai hyn ac yn trafod sut mae'n bwriadu goresgyn rhai o'r heriau hyn. Yna mae'n esbonio pam roedd yn teimlo mai dyma'r dull gorau i'w ddefnyddio gyda'r grŵp hwn.

Mae Hassan yn esbonio sut y dyluniodd y gweithgareddau dysgu i gysylltu â disgyblaeth arbennig y myfyrwyr (K2), gan ddefnyddio dwy erthygl a ddarllenodd oedd yn cynnwys ymchwil ar ddysgu yn y maes hwn (V3). Bu Hassan yn gwerthuso'r sesiynau drwy gael y myfyrwyr i roi adborth ar ôl y sesiwn olaf. Yna mae'n myfyrio ar yr hyn a weithiodd yn dda a beth oedd heb weithio'n dda, beth a ddysgodd o'r profiad a sut mae'n bwriadu newid agweddau ar gyfres gweithdai'r flwyddyn nesaf o ganlyniad i hynny (K3).

Enghraifft i'ch helpu i feddwl am A2: Arddangos mewn sesiwn labordy ymarferol

Mae Mia, sy'n ymchwilydd ym mlynnyddoedd cynnar ei gyrfa, wedi bod yn dangos technegau dadansoddi cemegol i grŵp o fyfyrwyr israddedig yn eu hail flwyddyn ac yn eu cefnogi i ddefnyddio'r technegau hyn mewn cyfres o sesiynau labordy ymarferol. Mae Mia yn defnyddio hyn yn rhan o'i thystiolaeth tuag at Faes Gweithgarwch 2 (A2).

Mae Mia yn gwybod bod myfyrwyr ail flwyddyn yn gweld y wybodaeth ddamcaniaethol sy'n gysylltiedig â'i phwnc yn heriol ac yn deall mor ddefnyddiol yw arbrofion ymarferol o ran eu cefnogi i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r pwnc. Mae hi'n trafod sut yr oedd hi'n defnyddio ei gwybodaeth am ei disgyblaeth (gan alinio gyda'i maes ymchwil yn yr achos arbennig hwn) sy'n tanategu'r arbrawf (K2) ac yn cyfeirio at lenyddiaeth addysgeg berthnasol am y ffordd y mae dysgwyr yn datblygu sgiliau ymarferol yn ei disgyblaeth (V3, K1). Am fod y gyfres labordy ymarferol hon yn llawer mwy datblygedig na sesiynau labordy sylfaenol y flwyddyn gyntaf, mae Mia yn trafod sut mae hi'n rhannu'r sesiynau ymarferol yn gamau clir fel ei bod yn gallu asesu ymgysylltiad myfyrwyr unigol a'u dealltwriaeth o'r arbrawf wrth iddi weithio gyda nhw, gan addasu ei harweiniad yn unol â hynny (K2).

Mae Mia wedi ystyried amrywiaeth y grŵp dysgu ac mae hi'n trafod sut y mae hi'n sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn gallu cymryd rhan yn llawn. Mae rhai myfyrwyr yn aeddfed, daeth rhai yn uniongyrchol i'r brifysgol yn 18 oed, mae nifer o fyfyrwyr o wledydd eraill ac mae rhai o'r rhain yn ei chael hi'n anodd deall peth o iaith gymhleth y ddisgyblaeth. Mae gan un myfyriwr nam ar y clyw (V1). Mae Mia yn darparu nodiadau am yr arbrawf cyn y sesiwn ac mae'r rhain ar gael i'r myfyrwyr i gyd drwy'r Amgylchedd Dysgu Rhithwir; mae'r rhain yn arbennig o ddefnyddiol i'r myfyrwyr sy'n gweithio mewn ail iaith ac i'r myfyriwr sydd â nam ar y clyw (V2).

Mae Mia yn gwybod bod darparu deunydd o flaen llaw i amrywiaeth o fyfyrwyr yn bwysig am ei bod wedi mynychu gweithdy DPP ar gynhwysiant, ac roedd hi wedi cael hwn yn ddiddorol a defnyddiol. O ganlyniad i fynd i'r gweithdy hwn, mae Mia yn edrych ar ffyrdd o addasu ei harferion addysgu ymhellach i sicrhau bod y myfyrwyr i gyd yn gallu cymryd rhan yn llawn (V2 a V3).

Enghraifft i'ch helpu i feddwl am A3: Asesu myfyrwyr mewn cyd-destun dysgu cyfunol

Mae Anton yn ymchwilydd ôl-ddoethuriaeth sydd â rhai cyfrifoldebau addysgu. Mae'n cefnogi grŵp o fyfyrwyr ar fodwl sy'n rhan o raglen ddysgu cyfunol mewn Celf a Dylunio. Un o brif agweddau ei rôl yw asesu gwaith myfyrwyr, yn enwedig yn ffurfiannol, a darparu adborth i'w helpu i baratoi ar gyfer eu hasesiad crynodol sy'n dod i ben gyda 'sioe'. Mae mwyafrif yr astudio ar y rhaglen yn digwydd ar-lein, ac mae'r myfyrwyr yn mynd i'r campws ar gyfer un bloc o ddysgu bob tymor. Mae Anton yn defnyddio hyn yn rhan o'i dystiolaeth ar gyfer Maes Gweithgarwch 3 (A3).

Mae Anton yn gosod y cyd-destun ar gyfer ei arferion asesu ac yn esbonio'r dull y mae'n ei ddefnyddio i ddarparu adborth ffurfiannol ar waith y myfyrwyr, gan gysylltu hyn â gofynion y modwl a'r 'sioe' grynodol diwedd blwyddyn (K2). Wrth wneud hyn, mae'n cyfeirio at lenyddiaeth addysgeg y mae wedi ei darllen am asesu a darparu adborth priodol (V3). Mae'n trafod pwysigrwydd ei waith o ran darparu adborth ffurfiannol amserol a chefnogol i alluogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwaith cyn yr asesiad crynodol terfynol.

Mae Anton yn esbonio sut mae'n gweithio gyda heriau a manteision amgylchedd ar-lein i roi cymorth ac arweiniad priodol i'w fyfyrwyr (K2, K4). Mae'n cyfeirio at erthygl ddiddorol a darllenodd am adborth ar-lein ac mae'n esbonio sut mae hyn wedi dylanwadu ar y ffordd y mae'n gweithio erbyn hyn gyda myfyrwyr o bell (V3). Mae'r dull hyblyg hwn o astudio wedi denu rhai myfyrwyr aeddfed rhan amser ac mae Anton yn rhoi rhai esiamplau penodol o'r ffordd y mae wedi cefnogi anghenion myfyrwyr aeddfed rhan amser, sydd wedi dod yn ôl i astudio o'r newydd (V1).

Yna mae Anton yn trafod ei rôl yn yr asesiad crynodol yn y sioe diwedd blwyddyn a'r ffordd y mae'n gweithio yn rhan o dîm i wneud dyfarniadau asesu am waith y myfyrwyr (V5). Mae wedi cymryd rhan mewn gweithdy datblygu tîm i'r tiwtoriaid i gyd ar y rhaglen hon; mae'n nodi beth mae wedi ei ddysgu yn y sesiwn hwn ac yn esbonio sut mae'n defnyddio'r dysgu hwn wrth wneud yr asesiad crynodol yn y sioe diwedd blwyddyn (A5). Mae hefyd yn trafod rhai pethau y mae'n bwriadu eu gwneud yn wahanol y flwyddyn nesaf, ar sail cynnydd y myfyrwyr ac adborth canol modwl, a pham ei fod yn credu y bydd y newidiadau hyn yn gwella'r dysgu ar y rhaglen (K3).

Enghraifft i'ch helpu i feddwl am A4: Mentora yn y gweithle

Mae Chen mewn rôl broffesiynol mewn lleoliad clinigol ond mae hefyd wedi ei chyflogi gan brifysgol i ddarparu mentora i fyfyrwyr israddedig wrth eu gwaith. Mae hi'n penderfynu dewis A4 fel un o'i dau Faes Gweithgarwch yn ei chais, gan ganolbwyntio ar ei chymorth i nifer bychan o fyfyrwyr mewn lleoliad profiad gwaith i drosi'r dysgu o'u gwaith cwrs i'w harferion gyda chleientiaid/cleifion.

Mae Chen yn trafod ei rôl o ran mentora myfyrwyr. Mae hi'n cyfeirio at lenyddiaeth am arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n sylfaen i'w gwaith clinigol ei hun a dysgu seiliedig ar waith y myfyrwyr (V3). Mae hi hefyd yn trafod yr hyfforddiant i fentoriaid y mae hi'n ei gael yn y brifysgol ac yn esbonio sut mae hi'n defnyddio rhai o'r enghreifftiau o'r sesiynau hyfforddi hynny (V3, A5) i'w helpu hi i ddarparu canllawiau i rai myfyrwyr sydd yn eu blwyddyn derfynol yn y lleoliad clinigol. Mae Chen yn trafod y canllawiau mae wedi'u creu a sut mae hyn wedi helpu myfyrwyr i gymhwyso'r dysgu o'u gwaith cwrs a chefnogaeth amserol i baratoi ar gyfer eu lleoliad (V2).

Mae Chen yn dangos ei dealltwriaeth o'r canlyniadau dysgu y mae gofyn i fyfyrwyr eu cyflawni er mwyn pasio'r lleoliad arbennig hwn (K1) ac yn esbonio sut mae hi a mentoriaid lleoliad eraill wedi gweithio gyda thiwtor y modwl yn y brifysgol i alinio'r elfennau academiaidd gyda chyd-destun y gwaith (V5). Mae hi'n rhoi esiamplau o'r mathau o gwestiynau promptio y mae hi'n eu defnyddio gyda'r myfyrwyr i'w helpu i feddwl yn feirniadol am eu harferion clinigol (K1, K2). Mae Chen hefyd yn annog myfyrwyr i edrych ar hanes y cleifion ac yn cyflwyno'r rhain fel eu bod yn gallu rhoi peth adborth iddynt ar lafar ynglŷn â sut y gallent wella ar hyn a'i wneud yn fwy effeithiol (A3).

Mae Chen hefyd yn ystyried anghenion dysgu penodol y grŵp hwn o fyfyrwyr o'i gymharu â myfyrwyr blwyddyn gyntaf y mae hi wedi eu mentora mewn lleoliad gwahanol yn y gorffennol (K1). Mae hi'n trafod pa mor berthnasol yw'r profiad arbennig hwn i gyflogadwydd y myfyrwyr yn y dyfodol a sut mae hi'n sicrhau eu bod yn deall yn glir sut mae gofynion y Corff Proffesiynol yn berthnasol i'w gwaith yn y cyd-destun clinigol hwn (V4).

Enghraifft i'ch helpu i feddwl am A5: tiwtor rhan-amser sy'n gweithio mewn diwydiant ac sy'n rhan o dîm rhaglen

Mae Alex yn diwtor rhan amser ar raglen israddedig mewn Cynhyrchu Ffilm. Mae hi hefyd yn gweithio yn y diwydiant. Mae hi'n trafod effaith ei datblygiad proffesiynol sydd (i) yn berthnasol i ddiwylliant a (ii) yn berthnasol i addysgu ar y profiad dysgu y mae hi'n ei roi i'w myfyrwyr.

Enghraifft sy'n gysylltiedig â diwydiant:

Mae Alex yn trafod sut mae ei datblygiad proffesiynol mewn diwydiant yn cefnogi ei rôl fel tiwtor ar y rhaglen; mae hi'n gwneud yn siŵr ei bod yn diweddarau ei gwybodaeth yn rheolaidd am offer a meddalwedd drwy ddarllen cyfnodolion proffesiynol, mynd i ddigwyddiadau datblygiad proffesiynol a gweithio gyda phobl broffesiynol eraill. Yn ogystal â bod yn arbenigwr ar ei maes arbenigol ei hun, mae Alex yn esbonio sut mae ei gwaith ar setiau ffilm ar draws y byd yn ei galluogi i gydweithio â phobl broffesiynol eraill a sut mae hi'n defnyddio'r wybodaeth a'r mewnwelediad y mae hi'n eu cael i'w helpu i addysgu o safbwynt ehangach ar sail y diwydiant (K2, V3). Mae hi'n trafod sut mae hyn yn effeithio ar brofiad dysgu ei myfyrwyr a'u parodrwydd i weithio yn y diwydiant byd-eang (V4)

Enghraifft yn ymwneud ag addysgu:

Mae Alex yn trafod ei hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu. Mae holl aelodau tîm y rhaglen yn cymryd rhan yn frwd mewn gwneud adolygiadau cymheiriaid o'r addysgu ac mae Alex yn rhoi nifer o enghreifftiau o'r ffordd y mae arsylwi ei chydweithwyr a chael eu harsylwi gan gymheiriaid profiadol wedi dylanwadu ar ei hagwedd tuag at ei harferion addysgu ei hun. O ganlyniad i'r profiadau hyn, mae hi hefyd wedi dechrau darllen rhagor am y ffordd y gall myfyrwyr ddysgu yn ei disgyblaeth ac mae hi'n defnyddio'r wybodaeth newydd hon yn ei harferion addysgu (K1, K2).

Mae tîm y rhaglen yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd ac mae Alex yn esbonio sut mae'r rhain yn ei helpu i ddeall lle mae ei sesiynau'n ffitio i mewn i weddill y modwl a'r rhaglen (K1). Mae hi hefyd yn trafod yr hyn mae hi wedi ei ddysgu am effeithiolrwydd y gwahanol ddulliau addysgu o drafodaethau ei chydweithwyr yn y cyfarfodydd. Ar sail hynny a'r adborth a ddarparwyd gan gynrychiolwyr y myfyrwyr sy'n mynychu'r cyfarfodydd, a'r ymatebion o'i gwerthusiadau modwl, mae Alex wedi newid rhai ymagweddau at ei harfer dysgu ac addysgu i wella rhai elfennau o'r modwl (K3).

Bydd yr enghreifftiau uchod wedi helpu i ddangos sut y gallai rhywun ysgrifennu am eu harfer mewn Naratif Adfyfyriol. Byddwch yn ysgrifennu am eich cyd-destun unigryw eich hun ac yn defnyddio enghreifftiau a thystiolaeth bersonol i chi. Cofiwch ysgrifennu yn y person cyntaf – defnyddiwch 'i/fi/mi' – fel y dangosir yn y darn byr isod:

Mynychais weithdy Prifysgol am niwroamrywiaeth er mwyn deall yn well yr heriau y mae un o fy myfyrwyr yn eu hwynebu (V1). Yn ddiweddarach, darllenais erthygl a argymhellwyd gan hwylusydd y gweithdy a oedd yn berthnasol iawn i'm cyd-destun disgyblaethol (V3). Rwy'n awr yn mynd ati i gynllunio gweithgareddau fy sesiynau a'r amgylchedd dysgu i sicrhau bod fy holl fyfyrwyr yn gallu ymgysylltu'n llawn â'r dysgu i gyrraedd eu potensial llawn (A1, V2).

7. Datganiadau Cefnogi

Rhaid i'ch cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol gael ei gymeradwyo gan Ddatganiad Cefnogi gan **un canolwr**.

Mae'r Datganiad Cefnogi'n ategu eich cais ac yn cael ei ddefnyddio gan yr adolygwyr i gadarnhau bod eich cais yn cyflwyno adlewyrchiad teg a chywir o'ch arfer addysg uwch. Nid yw'n cael ei ddefnyddio gan adolygwyr i lenwi unrhyw fylchau yn y dystiolaeth rydych chi'n ei darparu tuag at y Disgrifydd. Bydd angen i'r adolygwyr weld dystiolaeth ddigonol o arfer effeithiol yn eich Naratif Adfyfyriol i fodloni Disgrifydd 1 er mwyn iddynt ddyfarnu Cymrodoriaeth Gysylltiol.

Dylai eich canolwr fod yn gweithio'n agos â chi, neu fod wedi gweithio'n agos â chi yn ddiweddar, a bod â gwybodaeth uniongyrchol o'ch arfer fel eu bod mewn sefyllfa i wneud sylwadau am eich cais a'i gymeradwyo. Sylwch y dylai'r Datganiad Cefnogi adlewyrchu perthnasoedd proffesiynol; h.y. ni ddylent fod gan aelodau o'r teulu nac yn seiliedig ar gyfeillgarwch personol.

Mae angen i ganolwyr fod â phrofiad cyfredol neu ddiweddar o weithio mewn addysg uwch a bod yn gyfarwydd â PSF 2023; er enghraifft fel deiliad un o'r pedwar categori o Gymrodoriaeth, er nad yw hyn yn hanfodol.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y Datganiadau Cefnogi y mae eich canolwr yn eu darparu gan y gallant gyfeirio at agweddau ar eich arfer a allai gryfhau eich cais; os yw hyn yn wir, yna gallech adolygu rhannau o'ch cais a gofyn i'ch canolwyr wirio eu bod yn hapus i gymeradwyo'r newidiadau rydych chi wedi'u gwneud cyn i chi ei gyflwyno. Ar ôl i chi dderbyn eich Datganiad Cefnogi, cadwch ef fel ei fod yn barod i'w uwchlwytho.

Efallai y gofynnir i chi ddarparu Datganiad Cefnogi amgen am amrywiaeth o resymau pan fydd adolygwyr eich cais yn barnu nad yw'r datganiad yn cadarnhau ac yn cymeradwyo'r dystiolaeth yn eich cais yn llawn.

7.1 Canllawiau i ganolwyr

Rhowch gopi i'ch canolwr o'r **Canllawiau i Ganolwyr sy'n ysgrifennu Datganiad Cefnogi – Cymrodoriaeth Gysylltiol** a'r **Templed Datganiad Cefnogi**; bydd y ddwy ddogfen hyn ar gael ar Moodle (modwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen).

Yn eu Datganiad Cefnogi, bydd angen i'ch canolwr gadarnhau eich bod wedi disgrifio'ch arfer yn gywir ac yn deg. Felly, mae angen i'ch canolwr **gael fersiwn derfynol eich cais** i'w alluogi i ddarparu geirda effeithiol. Yn eu Datganiad Cefnogi bydd pob canolwr yn cadarnhau eich bod, yn eu barn broffesiynol nhw, yn dangos gofynion Disgrifydd 1 ac y dylech dderbyn Cymrodoriaeth Gysylltiol.

Gofynnir i ganolwyr gadarnhau eu bod wedi ysgrifennu'r datganiad cefnogi eu hunain a bod y wybodaeth a ddarperir ganddynt wedi'i hysgrifennu'n benodol ar gyfer eich cais. Gofynnir iddynt gadw eu Datganiad Cefnogi fel **ffeil pdf** a'i hanfon atoch fel y gallwch ei huwchlwytho gyda'ch cais.

Mae'r Swyddfa Academaidd yn cadw'r hawl i gysylltu â'ch canolwyr am eglurhad, felly gwnewch yn siŵr bod y ddau Ddatganiad Cefnogi'n cynnwys manylion cyswllt y gellir eu gwirio (e.e. enw, teitl swydd, cyfeiriad e-bost, sefydliad). Fel rhan o broses sicrhau ansawdd barhaus

y Swyddfa Academaidd, mae'r Swyddfa Academaidd yn gwirio geirdaon fel mater o drefn i sicrhau dilysrwydd unigolion drwy adolygiad testunol yn Turnitin. Yn ogystal â defnyddio meddalwedd canfod llên-ladrad (Turnitin), cysylltir â rhai canolwyr i gadarnhau mai'r Datganiad Cefnogi a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd yw'r un datganiad a baratowyd ac a gwblhawyd ganddyn nhw. Os amheuir uniondeb proffesiynol y Datganiad Cefnogi, ni fydd y datganiad yn cael ei dderbyn a gallai hynny olygu bod y cais yn aflwyddiannus.

8. Cyflwyno eich cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol

Ar ôl i chi gwblhau eich cais all-lein gan ddefnyddio'r templed cais am Gymrodoriaeth Gysylltiol ac wedi i chi gael eich Datganiad Cefnogi, rydych yn barod i gyflwyno eich cais.

Cyflwynir eich cais ar Moodle (modwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen)

Bydd cyfrif geiriau eich cais yn cael ei wirio. Os ydych wedi mynd y tu hwnt i'r cyfrif geiriau, bydd eich cais yn cael ei ddychwelyd atoch ac ni fydd yn cael ei ystyried.

8.1 Proses cyflwyno cais:

1. Pan fydd gennych eich holl ddogfennau cais, dilynwch y camau hyn i gyflwyno eich cais i'w adolygu:
 - 1.1 Cyflwynwch eich cais a'ch datganiad cefnogi ar y Ddolen Gyflwyno briodol ar Moodle (modwl Cymrodoriaeth AU Ymlaen)

9. Sut bydd eich cais yn cael ei adolygu?

Bydd eich cais yn cael ei adolygu gan ddau asesydd annibynnol (a elwir yn 'panel Cydnabyddiaeth yr HEA') fel rhan o broses adolygu gan gymheiriaid. Mae sampl o geisiadau o bob rownd o gyflwyniadau yn cael eu cymedroli gan Gynghorydd Allanol.

Dewisir aseswyr am eu profiad o adolygu allanol a'u dealltwriaeth o PSF 2023, yn ogystal â'u gwybodaeth a'u profiad o ddysgu ac addysgu mewn addysg uwch. Mae cronfa aseswyr y Swyddfa Academaidd yn cynnwys arbenigwyr addysg ac ymarferwyr o amrywiaeth o ddisgyblaethau ar draws y Brifysgol.

Mae ein haseswyr yn ymgymryd â chylch blynyddol o weithgareddau datblygu proffesiynol a safoni rheolaidd i sicrhau bod eu hadolygiad o'ch cais yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth gyfredol o ofynion PSF 2023 a chymrodoriaeth gysylltiol.

9.1 Sut mae'r aseswyr yn ffurfio eu barn?

Bydd yr aseswyr yn chwilio am dystiolaeth bod eich arfer yn bodloni gofynion Disgrifydd 1 ar draws eich Naratif Adfyfyriol a byddant yn gwirio bod y Datganiad Cefnogi'n darparu cymeradwyaeth briodol ar gyfer eich cais. Byddant yn asesu eich cais yn erbyn pob un o feini prawf Disgrifydd 1.

Sylwch fod y dyfarniad yn seiliedig ar a yw'r dystiolaeth ysgrifenedig rydych chi'n ei darparu yn y Naratif Adfyfyriol yn bodloni gofynion Disgrifydd 1.

Bydd pob asesydd yn darllen eich cais ac yn cymhwyso meini prawf Disgrifydd 1 i ddod i ddyfarniad annibynnol cychwynnol. Yna mae'r ddau asesydd yn ffurfio barn gytûn ar y cyd. Os na fydd y ddau asesydd yn gallu dod i benderfyniad consensws, bydd y Cynghorydd Allanol yn cael ei ddefnyddio i gymedroli a chytuno ar ganlyniad.

Darperir [canllawiau](#) a gridiau adolygu ar gyfer ein haseswyr, sy'n esbonio sut y disgwylir iddynt lunio barn broffesiynol ar geisiadau am Gymrodoriaeth.

Cyn i unrhyw ddyfarniad gael ei gyfathrebu i'r ymgeisydd, mae'r Cynghorydd Allanol yn cymedroli sampl o geisiadau.

9.2 Canlyniadau posibl adolygiadau

Dyfarnu

Os mai barn gytûn y Panel yw bod eich cais yn bodloni gofynion Disgrifydd 1, yna dyfernir Cymrodoriaeth Gysylltiol i chi. Byddwch yn derbyn e-bost i'ch llongyfarch gan y Swyddfa Academaidd a fydd yn esbonio sut i lawrlwytho eich tystysgrif Cymrodoriaeth Gysylltiol o fewn eich cyfrif [MyAdvanceHE](#). Bydd gennych hefyd hawl i ddefnyddio'r llythrennau AFHEA ar ôl eich enw.


Cyfeirio

Os bernir nad yw eich cais yn darparu dystiolaeth ddigonol i fodloni Disgrifydd 1, yna fe gewch

adborth gan yr adolygwyr mewn **templed Canlyniad ac Adborth y Panel**. Bydd yr adborth hwn yn dangos pa rai o'r meini prawf y mae eich cais wedi'u bodloni ac yn esbonio sut mae angen cryfhau eich cais i ddarparu tystiolaeth o'r meini prawf sy'n weddill o Ddisgrifydd 1.

Byddwch yn cael cynnig **un** cyfle i ailgyflwyno o fewn pedair wythnos. Yn yr achos hwn, byddwch yn cael templed ar gyfer eich ailgyflwyniad a gofynnir i chi amlygu/tracio unrhyw newidiadau rydych chi'n eu gwneud i'ch cais gwreiddiol. Ar ôl i chi gyflwyno eich cais diwygiedig, bydd yr un adolygwyr yn gwneud dyfarniad terfynol i naill ai ddyfarnu Cymrodoriaeth Gysylltiol neu nodi bod angen cyflwyno cais newydd.

Sylwch y byddai angen i unrhyw apêl fod yn gysylltiedig â methiant i gadw at broses PCYDDS ac nid â chanlyniad yr adolygiad.



9.3 Faint o amser bydd y broses adolygu'n ei gymryd?

Gellir gwneud cais am Gymrodoriaeth ar gyfer un o'r dyddiadau cyflwyno penodol. Fe gewch eich hysbysu am ganlyniad eich cais o fewn 6-8 wythnos i'r dyddiad cyflwyno.

9.4 Beth os oes gennyf gwestiynau eraill?

Os oes gennych ragor o gwestiynau neu os oes angen cymorth pellach arnoch, anfonwch e-bost i HEAapplications@uwtsd.ac.uk a bydd un o'n tîm yn gallu eich cynorthwyo.

